Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar

**ddydd Mercher, 12 Ebrill 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Siân Maehrlein, Chris James a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol**: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, Gogledd, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am-10:50am)

1 **Materion Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**

Roedd y Cynghorydd Mark Strong wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

3 **Datgan Buddiannau Personol a/neu Fuddiannau sy'n Rhagfarnu**

Dim.

4 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mawrth 2023**

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**

Dim.

5 **Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor**

5 Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:- 5 Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio am y ceisiadau cynllunio canlynol, a ystyriwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach:-

A220885 Codi un annedd teuluol a dau dŷ fforddiadwy ar dir y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo yn flaenorol at ddefnydd preswyl. Tir Gerllaw Sŵn Y Gwynt, Bont-goch, Tal-y-bont

GOHIRIO'R penderfyniad am y cais er mwyn cynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd ynghylch gwneud y tri annedd yn rhai fforddiadwy a bod yr

annedd teuluol yn cael ei leihau er mwyn cydymffurfio â meini prawf ynghylch maint fforddiadwy.  Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio i GYMERADWYO’R cais yn unol â chytundeb Adran 106 a GWRTHOD y cais os na chaiff cytundeb ei sicrhau cyn pen mis.

Nid oedd yr Aelodau yn cytuno gydag argymhelliad y Swyddogion ac roeddent o’r farn y dylid cymeradwyo’r cais, gan bod 3 annedd fforddiadwy yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â’r polisi, fel y nodwyd gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio.

**6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu**

Dim.

**7 Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig**

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

**8 Apeliadau**

CYTUNWYD nodi’r apeliadau a oedd wedi dod i law.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna’r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 10 Mai 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**